Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph
**Brackley Avenue**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 7UU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir ar gyrion Bae Colwyn, yn awdurdod lleol Conwy. Mae 235 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 30 o ddisgyblion rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Mae gan yr ysgol wyth dosbarth un oedran.

Cyfartaledd treigl tair blynedd disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 12%. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 20% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 20% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2012. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Chwefror 2017, wedi iddo fod yn bennaeth dros dro er mis Medi 2014.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac yn eu cymhwyso'n hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda. Maent yn rhoi profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion ac yn eu holi'n effeithiol i atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae hyn yn datblygu synnwyr o chwilfrydedd ac annibyniaeth yn dda, yn enwedig ar draws y cyfnod sylfaen. Mae'r ysgol yn creu awyrgylch dysgu eithriadol o gynnes a gofalgar. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn ymdrechu i gyflawni eu potensial. Mae staff ac arweinwyr yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a chefnogol. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn gweithio'n dda fel tîm i ysgogi gwelliannau cytûn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i wneud dewisiadau a phenderfyniadau annibynnol ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut, yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod cynllunio athrawon yn galluogi disgyblion i ddatblygu ystod lawn y medrau TGCh yn systematig ar draws y cwricwlwm

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a rhieni gyfrannu eu syniadau at wella'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

***Ddim mewn categori gweithgarwch dilynol***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau cyfathrebu, gan gynnwys y rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion sy’n fwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar ddisgyblion eraill ac oedolion, ac maent yn siarad yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn siarad yn dda am y brechdanau afiach y maent yn eu creu fel rhan o’u gwaith ar ansoddeiriau diddorol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith ddychmygus i ennyn diddordeb y darllenydd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynegi eu barn yn feddylgar ac yn rhoi esboniadau clir. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn defnyddio nodweddion ysgrifennu anghronolegol yn effeithiol i greu llyfrau addysgiadol ar gysawd yr haul a phlaned Fenws.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. O oedran cynnar, mae disgyblion yn adnabod llythrennau a seiniau ac maent yn dechrau creu geiriau yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn meithrin y medrau hyn yn dda. Dangosant agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen, gallant gasglu ystyr o destunau, ac maent yn siarad yn frwdfrydig am hoff lyfrau ac awduron. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhagfynegi’n synhwyrol beth allai ddigwydd mewn stori, ac yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i fynd at wybodaeth am eu gwaith testun.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu’n greadigol ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau yn dda i sillafu geiriau anhysbys yn seinegol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall atalnodi sylfaenol gyda chywirdeb cynyddol i adlewyrchu’r ystyr ac ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynllunio, ailddrafftio a gwella eu hysgrifennu yn effeithlon. Maent yn creu darnau o ysgrifennu estynedig o ansawdd da ar draws amrywiaeth o wahanol gyd-destunau.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin rhifau’n hyderus i fyny i 20, ac mae disgyblion mwy abl yn gwneud hyn y tu hwnt i 100 yn gywir. Gall y rhan fwyaf ohonynt adio a thynnu’n dda, er enghraifft pan fyddant yn canfod cyfanswm nifer y ciniawau ysgol i’w harchebu o dri dosbarth, neu wrth ganfod cost eitemau yn y siop esgidiau chwarae rôl. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio mesuriadau ansafonol a safonol gyda chywirdeb cynyddol. Maent yn defnyddio a chymhwyso eu gwybodaeth fathemategol flaenorol yn dda i ddatrys problemau syml. Er enghraifft, gall disgyblion ym Mlwyddyn 2 ddyblu rhifau’n gyflym wrth neidio ar hyd llinell rifau y tu allan. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio pob un o’r pedair gweithred rif yn briodol i ddatrys problemau cymhleth, gan gynnwys defnyddio rhifau degol. Mae’r rhan fwyaf o

ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gynyddol o sut i gyfrifo arwynebedd a pherimedr petryalau a chylchoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio eu medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth ddylunio gwersyll y fyddin ar gyfer milwyr Prydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llechi cyfrifiadurol yn hyderus wrth chwarae gemau i atgyfnerthu eu medrau rhifedd a llythrennedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio ystod ehangach o fedrau TGCh yn dda i gefnogi eu gwaith mewn meysydd dysgu eraill. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 3, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ymchwil i ddod o hyd i Gefn Hengoed a gwneud cymariaethau â Bae Colwyn. Mae llawer o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r e-bost yn briodol. Maent yn cofnodi a golygu cân rap am gynhesu byd-eang fel rhan o'u gwaith testun yn fedrus. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion i greu taenlenni a chronfeydd data yn gyfyngedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau priodol yn Gymraeg. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ymadroddion llafar a phatrymau iaith syml yn gywir, a gallant ddarllen ac ateb cwestiynau syml yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio cyfarchion bob dydd yn Gymraeg o gwmpas yr ysgol, ac maent yn ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau rheolaidd mewn gwersi. Mae ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Ym Mlwyddyn 4, maent yn ysgrifennu cymhariaeth ddiddorol rhwng brecwast heddiw a brecwast yn oes y Tuduriaid, ac erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu adroddiadau cywir am eu gweithgareddau gan ddefnyddio amser y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau a chyfarwyddiadau, ac mae disgyblion hŷn yn siarad â phobl eraill yn hyderus, er enghraifft wrth siarad am eu diddordebau a'u hobïau.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at yr ysgol, ac maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu i gwblhau tasgau. Mae llawer ohonynt yn dangos lefelau cryf o ddyfalbarhad a gwydnwch; er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen yn cymhwyso eu gwybodaeth am ddyblu yn hyderus wrth wneud smwddis ffrwythau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn dyfalbarhau'n dda wrth esbonio gwahanol briodoleddau trionglau yn llwyddiannus mewn gwers fathemateg.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn gadarnhaol i sylwadau ac awgrymiadau athrawon trwy olygu eu gwaith, neu ychwanegu ato. Mae hyn yn gwella ansawdd eu hysgrifennu estynedig yn sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyriol wrth wrando ar farn pobl eraill, ac yn hyderus wrth rannu eu meddyliau a'u syniadau eu hunain. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio ar y cyd ac yn effeithiol yn y dosbarth ac mewn grwpiau. Mae gan ddisgyblion foesau da ac maent yn groesawgar ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn credu bod pob un o'r staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. O ganlyniad, mae disgyblion yn hyderus y bydd staff yn delio'n brydlon ag unrhyw bryderon a godir ganddynt.

Mae disgyblion yn dechrau cael llais ac yn dylanwadu ar faterion ysgol trwy eu hymglymiad â grwpiau sy'n cynrychioli disgyblion. Er enghraifft, mae'r arweinwyr digidol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu medrau TGCh newydd yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at roi cyfeiriad i'w dysgu eu hunain. Ym Mlwyddyn 1, yn dilyn ymweliad â chanolfan adnoddau, sefydlodd y disgyblion warchodfa dylluanod fel ardal chwarae rôl. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gweithio'n bwrpasol ac yn annibynnol o oedran ifanc. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn gwneud awgrymiadau'n rhwydd am yr hyn yr hoffent ymchwilio iddo ar ddechrau eu testun. Er enghraifft, roedd disgyblion eisiau gwybod mwy am sut mae cynhyrchu olew palmwydd yn effeithio ar y cynefin ar gyfer orangiwtaniaid. O ganlyniad, gall llawer o ddisgyblion drafod materion byd-eang yn ymwneud â chynaliadwyedd yn aeddfed. Fodd bynnag, nid yw lefelau gweithio'n annibynnol yn gyson ar draws cyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu ym mhob dosbarth.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fyw bywyd iach. Maent yn weithgar amser egwyl ac yn mwynhau defnyddio'r llwybr antur a dringo offer. Mae disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am siop ffrwythau'r ysgol amser egwyl ac mae llawer o ddisgyblion yn prynu ffrwythau. Maent yn trafod pwysigrwydd diet ac ymarfer corff yn aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar ystod o ymweliadau a phrofiadau preswyl, sy'n gwella eu lles ac yn cyfoethogi eu dysgu'n dda.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae bron pob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn datblygu perthnasoedd gwaith cryf gyda disgyblion. Mae hyn yn creu awyrgylch cynnes a phwrpasol yn yr ysgol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus a brwd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud yn siŵr fod disgyblion yn deall diben gweithgareddau dysgu'n glir. Mae hyn yn helpu disgyblion i ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud yn eu gwaith, ac yn symud eu dysgu ymlaen yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r athrawon yn gofyn cwestiynau heriol addas sy'n annog disgyblion i wneud cysylltiadau effeithiol rhwng yr hyn y maent yn ei wneud a'u dysgu blaenorol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac maent yn darparu cyfleoedd dysgu ymarferol ac ysgogol. Maent yn galluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am beth mae arnynt eisiau ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, gwnaeth disgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen orsaf i arch arwyr. Mae hyn yn datblygu medrau creadigol, llafaredd ac ysgrifennu disgyblion yn llwyddiannus. Ar adegau prin iawn yng nghyfnod allweddol 2, pan fo'r addysgu yn llai effeithiol, mae oedolion yn rhoi cyfarwyddyd ar gyfer tasgau am gyfnod rhy hir, ac nid ydynt yn herio disgyblion ar lefel ddigon uchel.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o ymweliadau allgyrsiol i gefnogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae Blwyddyn 3 yn ymweld â Ffynnon Santes Gwenffrewi ac mae Blwyddyn 4 yn mynychu canolfan breswyl ar gyfer addysg awyr agored i ddatblygu eu medrau datrys problemau a meithrin tîm.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol a chadarnhaol i ddisgyblion am eu gwaith, sy'n eu helpu i symud eu dysgu ymlaen yn gyflym ac yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau rheolaidd yn bwrpasol i

gynllunio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion, a gosod y rhan fwyaf o'r gwaith ar lefel briodol.

Mae gwelliannau mewn cynllunio yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar fedrau llythrennedd a rhifedd presennol disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn mynd i'r afael â phob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer TGCh yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd buddiol dyddiol i ddisgyblion ymarfer patrymau iaith, ac mae hyn yn atgyfnerthu eu dysgu a'u mwynhad o ddefnyddio'r Gymraeg yn dda. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymharu paentiad Hokusai, 'The Great Wave off Kanagawa' gyda gwaith gan yr arlunwyr o Gymru, Rob Piercy a Kyffin Williams.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned feithringar a gofalgar ag iddi ethos cynhwysol a chynnes. Mae trefniadau i sicrhau gofal a lles disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae staff yn defnyddio systemau olrhain a monitro manwl i fesur cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau nodi ac arweiniad amserol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae unigolion sy'n cael cymorth yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni eu targedau penodol. Mae sesiynau ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar les disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymryd rhan mewn gwersi'n llwyddiannus. Mae'r sesiynau hyn yn datblygu hunan-barch disgyblion a'u medrau cydweithredu yn dda.

Ceir perthynas gefnogol a chydweithredol â rhieni. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda trwy gyfryngau cymdeithasol, ac mae ei pholisi drws agored yn galluogi rhieni i deimlo'n hyderus i fynd at staff unrhyw bryd. Mae staff yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni i'w cynorthwyo â dysgu eu plentyn. Er enghraifft, mae cyfarfod cyn-ysgol yn darparu cyfleoedd i staff roi cyngor ymarferol ar helpu'r disgyblion ieuengaf i ymgynefino'n gyflym yn yr ysgol.

Ceir trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am ffyrdd iach o fyw, ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Hefyd, mae cyfle i ddisgyblion weithio gyda chogydd yr ysgol i ddatblygu opsiynau iach ar gyfer cinio ysgol. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am gamddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar-lein trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n fodlon helpu pobl eraill. Er enghraifft, mae'r grŵp 'tyfu mewn ffydd gyda'n gilydd' ('growing in faith together') yn gweithio gyda disgyblion ar draws yr ysgol i hyrwyddo agweddau gofalgar a goddefgar at ei gilydd.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r holl ddisgyblion ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau gweithgar yn yr ysgol. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd defnyddiol i

ddisgyblion ddatblygu eu hyder a'u synnwyr o hunan-werth. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu'n llawnach at faterion ysgol gyfan.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i feithrin gwybodaeth disgyblion am amrywiaeth yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod rhyngwladol, a oedd yn cynnwys blasu bwyd a gwrando ar gerddoriaeth a chaneuon o wahanol ddiwylliannau. Hefyd, mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau diwylliannol, fel ymweliadau â'r theatr, a gweithio gyda cherddorfa leol. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu ystod eang o glybiau yn rheolaidd, sy'n ehangu eu profiadau a'u medrau. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau celf, coginio, cerddoriaeth, pêl-rwyd, côr a chwaraeon.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a phroffesiynol o staff ac mae'n effeithiol o ran gyrru'r ysgol ymlaen yn frwdfrydig. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion hyd eithaf eu gallu mewn cymuned ysgol hapus a chefnogol. At ei gilydd, mae arweinwyr ar bob lefel yn llwyddo i sefydlu agweddau cadarnhaol at ddysgu ymhlith y disgyblion mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu lles yn effeithiol.

Mae trefniadau i ddosbarthu rolau arwain yn datblygu'n briodol. Ceir ethos tîm cryf ac mae staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Mae staff yn cymryd cyfrifoldeb am ansawdd ac effaith eu gwaith mewn ystafelloedd dosbarth yn briodol.

Mae prosesau'r ysgol i werthuso'i heffeithiolrwydd yn drefnus ac yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys gwrando ar ddysgwyr, olrhain deilliannau disgyblion, ac arsylwadau ystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddarlun clir a chyfoes o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i nodi nifer hylaw o flaenoriaethau priodol gyda gweithdrefnau monitro clir. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio'n graff ar gynnal a gwella safonau disgyblion. Fodd bynnag, mae rôl rhieni a disgyblion o ran cyfrannu at y broses hunanwerthuso yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth bwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio ystod o dasgau a gweithgareddau diddorol i gefnogi medrau rhifedd disgyblion. Llwyddodd y dull strwythuredig hwn i ennyn diddordeb disgyblion, ac mae wedi gwella eu medrau mathemategol yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer pob un o'r staff yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu perthnasol ar gael sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, erbyn hyn, caiff adborth i ddisgyblion am eu gwaith effaith gadarnhaol ar eu gallu i wella gwaith o ganlyniad i gamau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i wella lles a chyflawniad disgyblion penodol trwy ystod o raglenni ymyrraeth ac anogaeth gwerth chweil.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn adnabod yr ysgol a’r gymuned y mae’n ei gwasanaethu yn dda.  Mae llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad cyffredinol disgyblion.  Gwnânt gyfraniadau gwerthfawr at broses hunanwerthuso’r ysgol.  Mae staff yn rhoi adroddiadau addysgiadol i lywodraethwyr, ac mae llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd ac effaith y camau gweithredu ar dargedau’r ysgol.  Mae’r wybodaeth hon yn galluogi llywodraethwyr i herio arweinwyr yn effeithiol i wella deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ymhellach.  Mae llywodraethwyr yn monitro cyllid a gwariant yr ysgol yn drylwyr.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2019